

MAWRTH 20, 2026

ADOLYGIAD ATGYFNERTHU
TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT
DIOGELU YNG NGHYMRU
CAM 1

JAN PICKLES OBE

Cynnwys

Rhagair	3
Adolygiad Atgyfnerthu Trefniadau Llywodraethiant Diogelu – Adroddiad Cam 1	4
Diben yr Adolygiad.....	4
Cefndir a chyd-destun datblygiad strwythurau llywodraethu diogelu yn y DU	4
Argymhelliad Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2022 – Sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant.....	7
Y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer diogelu yng Nghymru	8
Datblygiadau perthnasol diweddar yng Nghymru – Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a Storfa Ddiogelu Cymru	10
Crynodeb Gweithredol	12
Yr hyn sy'n gweithio'n dda yn ein model llywodraethiant diogelu presennol	12
Yr hyn sydd angen ei wella yn ein model llywodraethiant diogelu presennol	12
Trefniadau Llywodraethiant Cenedlaethol – Adborth ar y System a Goblygiadau	13
Byrddau Diogelu Rhanbarthol – Yr hyn a glywsom	13
Arweinyddiaeth Byrddau Diogelu Rhanbarthol – Yr hyn a glywsom.....	14
Unedau Busnes – Yr hyn a glywsom	16
Adborth manwl ar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.....	17
Yr Arolygiaethau – Yr hyn a glywsom	19
Casgliad ac argymhellion.....	20
Atgyfnerthu ein Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Diogelu dros y degawd nesaf.....	21
Argymhelliad 1 - Sefydlu Bwrdd Goruchwyllo Arferion Diogelu Gweinidogol.....	23
Argymhelliad 2 – Hwb Gwybodaeth Canolog	23
Argymhelliad 3 – Cynllun Diogelu Cenedlaethol	24
Argymhelliad 4 – Mwy o rôl i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	25
Argymhelliad 5 – Dysgu o bob achos	26
Argymhelliad 6 – Cytuno ar fformiwla ariannu partneriaeth Cymru gyfan ar gyfer yr Unedau Busnes	26
Argymhelliad 7 – (Cam 2) Egluro rolau a chyfrifoldebau arwain o fewn y fframwaith llywodraethiant ar gyfer diogelu.	26
Argymhelliad 8 – (Cam 2) Gwella mecanweithiau i sefydliadau chwaraeon, ffydd a chred ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol.	27

Adroddiad terfynol Cam 1, Mawrth 2026, Adolygiad Atgyfnerthu Trefniadau
Llywodraethiant Diogelu

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn	28
Atodiad 2: Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad hwn	31
Atodiad 3: Gwybodaeth allweddol	32
Atodiad 4: Rhestr o acronymau a dolenni	35
Atodiad 5: Rhestr o sefydliadau ac unigolion yr ymgynghorwyd â nhw	38

Rhagair

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd yn ystod yr Adolygiad hwn. Mae'r Adolygiad hwn wedi elwa'n fawr ar wybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol ledled Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth ganolog a lleol, y sector iechyd, plismona, a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â sefydliadau ffydd a chwaraeon. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi cyfraniadau annibynnol sawl unigolyn. Dysgais lawer wrth drafod â chydweithwyr yn yr Alban a Lloegr, ac o waith ymchwil Llywodraeth Cymru ar fodelau llywodraethiant diogelu o bob cwr o'r byd.

Jan Pickles OBE Mawrth 2026

Adolygiad Atgyfnerthu Trefniadau Llywodraethiant Diogelu – Adroddiad Cam 1

Diben yr Adolygiad

Mae dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers i'r trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer diogelu yng Nghymru gael eu rhoi ar waith yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dros y degawd diwethaf, mae'r strwythurau llywodraethu hyn wedi wynebu nifer o heriau yn sgil Brexit, pwysau ychwanegol ar y gweithlu gofal cymdeithasol, ac effaith sylweddol pandemig COVID-19. Mae'r digwyddiadau mawr hyn wedi effeithio ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ond hefyd ar ein trefniadau llywodraethu.

Er mwyn rhoi pobl Cymru wrth wraidd y trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu polisi a safonau clir, gan sicrhau bod gwasanaethau yn darparu ymyriadau amserol a phriodol mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau.

Yr Adolygiad hwn yw cam cyntaf dadansoddiad manwl o'n trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu. Mae egwyddorion llywodraethu da a nodir yn adroddiad 'The International Framework: Good Governance in the Public Sector (2014)'¹ yn awgrymu y dylem ofyn y cwestiynau hyn i ni ein hunain – dyma sail Cam 1 yr Adolygiad hwn. O ran y trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu:

1. Pa agweddau rydym eisoes yn eu gwneud yn dda?
2. Sut y gallwn gyrraedd y lefel nesaf?
3. Pa gamau nesaf ymarferol y gallwn roi cynnig arnynt?

Cynigir y bydd Cam 2 yr Adolygiad hwn yn mireinio'r manylion sydd eu hangen ac yn helpu i ateb y pedwerydd cwestiwn.

4. Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo?

Mae Cylch Gorchwyl Cam 1 yr Adolygiad hwn wedi'i nodi'n llawn yn Atodiad 1 ac mae'r fethodoleg wedi'i nodi yn Atodiad 2.

Cefndir a chyd-destun datblygiad strwythurau llywodraethu diogelu yn y DU

Cyn datganoli, roedd y trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu wedi'u cyfyngu i amddiffyn plant, ac ychydig iawn o graffu amlasiantaethol oedd yn digwydd ynghylch amddiffyn oedolion. Yng Nghymru, roeddem yn gweithredu yn unol â system y DU o Bwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal. Roedd y model hwn yn canolbwyntio ar amddiffyn

¹ <https://www.publicgov.co.uk/2017/10/30/the-international-framework-a-great-structure-for-public-governance-reviews>

plant yn benodol, heb ystyried cysyniad ehangach diogelu a llesiant. I'r gwrthwyneb, roedd llai o ddealltwriaeth ynghylch amddiffyn oedolion neu roedd yn faes llai datblygedig, ac fel arfer, aethpwyd i'r afael ag achosion drwy ymyriadau gan asiantaethau unigol. Roedd materion fel cam-drin domestig a thrais yn cael eu rheoli ar wahân gan y trydydd sector a'r Heddlu yn bennaf.

Yng Nghymru a Lloegr ar ddechrau'r 2000au, bu newid o ddull amddiffyn plant traddodiadol i fodel diogelu mwy cynhwysol, gydag atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu hystyried yn rhannau annatod o ymateb y wladwriaeth i gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Cafodd y datblygiad hwn ei lywio gan Adroddiad cyntaf y Prif Arolygwyr ar y Cyd ar Ddiogelu Plant² yn 2002 a chanfyddiadau'r ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbié a gynhaliwyd yn 2003³, ochr yn ochr â thrychinebau eraill. Mae'n rhaid nodi na welwyd y dull o ymdrin ag Amddiffyn Oedolion yn ehangu yn yr un ffordd am sawl blwyddyn.

Yn yr Alban, mae'r penderfyniad i gadw'r term Amddiffyn Plant yn parhau hyd heddiw, ac nid yw iaith ehangach diogelu wedi'i mabwysiadu. Er gwaethaf llawer o drafodaeth am ddiogelu dros 'gwrs bywyd', yn yr Alban ceir 31 o Bwyllgorau Amddiffyn Plant, a gydlynir gan sefydliad trydydd sector Celcis⁴. Sefydlodd Deddf Cynorthwyo ac Amddiffyn Oedolion (Yr Alban) 2007 Bwyllgorau Amddiffyn Oedolion amlasiantaethol ym mhob ardal cyngor. Yn ystod yr Adolygiad hwn, dywedwyd bod trefniadau llywodraethiant y gyfundrefn diogelu oedolion yn yr Alban yn faes llai datblygedig. Ariennir Celcis gan Lywodraeth yr Alban ac mae'n cynnig dull sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio a chymorth i'r Pwyllgorau Amddiffyn Plant, gan lywio'r canlynol gyda nhw:

1. Pa broblem rydym yn ceisio ei datrys?
2. Pa ymyriadau sydd ar gael ac a fydd yn effeithiol?
3. Pa gymorth sefydliadol sydd ei angen i roi arferion effeithiol ar waith a'u cynnal?
4. Pa drefniadau partneriaeth, ariannol, rheoleiddiol a gwleidyddol sydd eu hangen?

Ystyrir bod gweithdai ar y cyd y Pum Gwlad y mae Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru yn rhan ohonynt yn effeithiol i rannu gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â diogelu oedolion ledled y DU a gellid cynnal gweithdai tebyg ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc.

Yn Lloegr, cynhaliwyd nifer o ddiwygiadau sefydliadol i wella'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu, gan gynnwys cyflwyno Byrddau Diogelu Plant Lleol yn lle'r Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal. Cyn hynny, roedd Pwyllgorau Amddiffyn

² <https://lx.iriss.org.uk/sites/default/files/resources/097.%20Safeguarding%20Children%20-%20A%20Joint%20Chief%20Inspectors%20Report.pdf>

³ <https://www.gov.uk/government/publications/the-victoria-climbié-inquiry-report-of-an-inquiry-by-lord-laming>

⁴ <https://www.celcis.org/about-us>

Plant Ardal yn gweithredu heb awdurdod statudol, a dangosodd ymchwil fod hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd a'u cysondeb ar draws y rhanbarthau. Ymhlith y diffygion a nodwyd roedd gormod o bwyslais ar ofal cymdeithasol plant, cynrychiolaeth ac aelodaeth anghyson, amrywiadau o ran strwythur ac arferion, arweinyddiaeth annigonol, a diffyg adnoddau (Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol et al., 2002⁵; Alan France, Emily R. Munro, Amanda Waring 2010⁶).

Yn 2016 y gwelwyd y prif ddiwygiad i'r trefniadau llywodraethiant yn Lloegr pan gyhoeddwyd Adolygiad Syr Alan Wood o drefniadau diogelu amlasiantaethol yn Lloegr. Arweiniodd hyn at ddiddymu'r Byrddau Diogelu Plant Lleol a chyflwyno Partneriaid Diogelu Statudol yn eu lle, yn seiliedig ar ôl troed yr awdurdod lleol, wedi'u cynrychioli gan uwch-arweinwyr o'r sector iechyd, yr awdurdod lleol a'r Heddlu y byddai ganddynt bwerau gwneud penderfyniadau am gyllidebau, pobl a pholisi. Bu oedi yn y broses o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac addasiadau i wasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud. Yn Lloegr, cafodd Adolygiadau Achosion Difrifol, a ragflaenodd Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, eu disodli gan Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant Lleol (LCSPR)⁷ yn 2018.

Canfu adolygiad dilynol gan Wood ym mis Mai 2021, sef 'Sector expert review of new multi-agency safeguarding arrangements'⁸, rai llwyddiannau cynnar gan y rhai a fabwysiadodd y model Partneriaid Diogelu i gychwyn. Fodd bynnag, beirniadodd Wood lawer o feysydd nad oeddent, yn ei farn ef, yn cynnig fawr ddim newid gwirioneddol, a dywedodd bod rhai meysydd fel '*old wine in new bottles*'.

Ar y cyfan, roedd Wood o'r farn nad oedd y sector addysg yn cael ei gynnwys ddigon, a nododd wendidau yn y model. Mae rhai ardaloedd yn Lloegr a oedd yn amharod i dderbyn y newidiadau wedi cadw at ddull partneriaeth ehangach sy'n debycach i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru.

Y newid arwyddocaol nesaf i'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu yn Lloegr oedd Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017,⁹ a ddarparodd ar gyfer creu'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant Annibynnol¹⁰. Roedd y Panel yn gam tuag at ganoli'r trefniadau llywodraethiant gan ei fod yn comisiynu adolygiadau cenedlaethol o ddulliau diogelu plant ar sail thematig ac fel rhan o achosion proffil uchel unigol. Mae pob awdurdod lleol yn hysbysu'r Panel am achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar

⁵ <https://www.lgcplus.com/archive/government-welcomes-joint-inspectorates-report-on-childrens-safeguards-14-10-2002/>

⁶ France, Alan; Munro, Emily R.; Waring, Amanda (2010). The evaluation of arrangements for effective operation of the new Local Safeguarding Children Boards in England - Brief. Prifysgol Loughborough. Adroddiad. <https://hdl.handle.net/2134/6448>

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111167540/contents>

⁸ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/987928/Wood_Review_of_multi-agency_safeguarding_arrangements_2021.pdf

⁹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/16/contents>

¹⁰ Chrome

extension://efaidnbmnnnibpcajpcglclefindmkaj/https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c97b1dd0fba2f1334cf300/Child_Safeguarding_Practice_Review_Panel_annual_report_2023_to_2024.pdf

gyfer adolygiad lleol ac yn cytuno ar y gwerth ychwanegol y gall yr adolygiad ei wneud mewn perthynas â dysgu am ddiogelu.

Nododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, newid sylweddol i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Hyrwyddodd y Ddeddf annibyniaeth a phrosesau cydgynhyrchu, gan sicrhau bod unigolion yn chwarae rôl fwy dylanwadol yn y gwasanaethau y maent yn eu cael. Ddegawd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth hollbwysig hon, mae'r Adolygiad hwn bellach wedi'i gomisiynu i benderfynu sut y gellir atgyfnerthu llywodraethiant trefniadau diogelu amlasiantaethol i bant ac oedolion sy'n wynebu risg ymhellach.

Argymhelliad Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2022 – Sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant

Yn 2022, argymhellodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol¹¹, a barodd saith mlynedd, y dylid sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant¹² yng Nghymru a Lloegr. Tair swyddogaeth yr Awdurdod yw:

- I. gwella ymarfer ym maes amddiffyn plant a rhoi cyngor
- II. gwneud argymhellion i'r llywodraeth mewn perthynas â pholisi amddiffyn plant
- III. defnyddio'r pŵer i archwilio.

Pan ryddhawyd yr adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad, derbyniodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion a gyfeiriwyd atynt yn llawn neu mewn egwyddor. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru¹³ fod rolau a chyfrifoldebau presennol yr Arolygiaethau, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cwmpasu'r swyddogaethau hynny, a bod yr olaf o'r rhain eisoes yn cyflawni rhannau (i) a (ii) o argymhelliad yr ymchwiliad.

Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr (nad oes ganddi gorff tebyg i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol) y byddai'n creu Awdurdod Amddiffyn Plant fel endid newydd i wella'r system amddiffyn plant a darparu goruchwyliaeth genedlaethol. Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynigion hyn, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026, mae ei rôl, sy'n destun adolygiad, yn cynnwys:

- Darparu arweinyddiaeth gref i sicrhau bod ymarfer amddiffyn plant da wedi'i wreiddio'n gyson ledled ardaloedd lleol.
- Mynd i'r afael â materion systemig fel y rheini a amlygwyd gan Archwiliad Casey o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol ar sail grŵp.

¹¹ <https://www.iicsa.org.uk/recommendations.html>

¹² <https://www.gov.uk/government/news/new-national-child-protection-authority-announced>

¹³ <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-wybodaeth-ddiweddaraf-am-ymateb-llywodraeth-cymru-i-argymhellion>

- Sicrhau bod asiantaethau sy'n gyfrifol am ofalu am blant yn cydweithio'n agos ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol i atal unrhyw blentyn rhag syrthio drwy'r rhwyd.
- Nodi bygythiadau sy'n dod i'r amlwg a dwyn gwasanaethau i gyfrif am amddiffyn plant.

Cyhoeddwyd y bwriad i greu'r Awdurdod Amddiffyn Plant yn dilyn digwyddiadau diogelu diweddar yn Lloegr, fel llofruddiaeth Sara Sharif¹⁴ a chanfyddiadau Archwiliad Casey¹⁵ ar gangiau grŵmio. Bydd yr Awdurdod Amddiffyn Plant yn cyfrannu at ddiwygiadau ehangach ym maes amddiffyn plant o dan y Bil Lles Plant ac Ysgolion¹⁶, sydd bellach yn y camau olaf gerbron Senedd y DU. Un o swyddogaethau allweddol y corff newydd fydd sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o adolygiadau achosion difrifol ac y gweithredir ar wybodaeth arall yn gyson ledled y wlad.

Y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer diogelu yng Nghymru

Mae diogelu yng Nghymru yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethiant cenedlaethol-ranbarthol aml-haen, a sefydlwyd drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau statudol cysylltiedig. Caiff ei oruchwyllo gan Lywodraeth Cymru, cyrff cynghori cenedlaethol, a byrddau amlasiantaethol rhanbarthol.

Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am y fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer diogelu ledled Cymru. Mae'n cyhoeddi canllawiau statudol, yn comisiynu adolygiadau, ac yn sicrhau atebolrwydd am drefniadau diogelu.

Corff cynghori cenedlaethol yw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys:

1. Rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol
2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru
3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).

Mae gan Gymru chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, y mae pob un ohonynt yn cwmpasu ôl troed daearyddol diffiniedig. Mae eu cyfrifoldebau statudol wedi'u nodi

¹⁴ <https://surreyscp.org.uk/wp-content/uploads/2025/11/SS-CSPR-SSCP-Report-for-publication-13.11.25.pdf>

¹⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/media/685559d05225e4ed0bf3ce54/National_Audit_on_Group-based_Child_Sexual_Exploitation_and_Abuse.pdf

¹⁶ <https://bills.parliament.uk/bills/3909>

yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.
[legislation.gov.uk]

Mae eu swyddogaethau craidd yn cynnwys:

- Llywodraethiant amlasiantaethol ar draws asiantaethau partner (e.e., awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf).
- Cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion – yn 2024, cyflwynwyd Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUSau) yn lle'r rhain (gan ddod ag Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, adolygiadau lladdiadau domestig, ac adolygiadau llofruddiaethau iechyd meddwl ynghyd).
- Sicrhau bod asiantaethau yn cydweithio'n effeithiol i amddiffyn oedolion a phlant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso (ac yn achos plant, mathau eraill o niwed).
- Datblygu polisiâu rhanbarthol, sicrhau ansawdd, a systemau gwella.

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gyrrff statudol ac yn rhan annatod o'r gwaith o oruchwyllo trefniadau diogelu mewn ffordd gydlynol ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn darparu'r fframwaith gweithdrefnol ar gyfer ymarfer diogelu rheng flaen ar draws asiantaethau. Cawsant eu datblygu ar y cyd gan bob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'u cymeradwyo'n genedlaethol.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau cysondeb o ran y canlynol:

- Rhoi gwybod am bryderon am ddiogelu ac ymateb iddynt
- Penderfyniadau amlasiantaethol
- Rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr a rheolwyr

Maent yn haen weithredol hanfodol sy'n cefnogi'r system llywodraethiant ehangach.

Mae'r trefniadau llywodraethiant yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig Rhan 7 (Diogelu), sy'n pennu'r canlynol:

- Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol i amddiffyn oedolion a phlant sy'n wynebu risg
- Canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl
- Y mandad ar gyfer sefydlu Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Ategir y fframwaith hwn gan ddeddfwriaeth berthnasol arall yng Nghymru a'r DU (e.e., Deddf Plant 1989, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015).

Crynodeb o'r Strwythur Llywodraethiant

Lefel	Corff	Cyfrifoldebau Allweddol
Cenedlaethol	Llywodraeth Cymru	Polisi, deddfwriaeth, goruchwyllo, comisiynu adolygiadau
Cenedlaethol	Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	Cynghori Gweinidogion; gwella cysondeb ar lefel genedlaethol
Rhanbarthol	Byrddau Diogelu Rhanbarthol (Chwech)	Llywodraethiant amlasiantaethol; adolygiadau; sicrhau ansawdd; strategaeth diogelu ranbarthol
Gweithredol	Gweithdrefnau Diogelu Cymru	Canllawiau ymarfer safonol ar gyfer pob asiantaeth

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ymhlith nifer o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i wella diogelwch a llesiant y cyhoedd, ochr yn ochr â chyrff fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, endid statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw atgyfnerthu'r cydweithio rhwng sectorau gwasanaeth cyhoeddus amrywiol. Ceir hefyd Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, a elwir yn gyffredin yn *enw'r ardal* Ddiogelach, a Byrddau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Rydym yn dysgu'n bennaf o adolygiadau o ddigwyddiadau eithafol lle mae rhywun wedi marw neu wedi cael niwed difrifol. Mae'r adolygiadau hyn yn rhoi gwybodaeth drylwyr ond yn cynrychioli achosion annodweddiadol. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r gwersi rydym yn eu dysgu yn deillio o'r allanolion hyn, sy'n golygu mai gwybodaeth gyfyngedig sydd gennym am y mwyafrif o achosion.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn tynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer da mewn adroddiadau blynyddol, a gallant drafod achosion yn ystod diwrnodau datblygu, ond ychydig iawn o waith craffu amlasiantaethol a wneir ar achosion sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Datblygiadau perthnasol diweddar yng Nghymru – Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a Storfa Ddiogelu Cymru

Un o swyddogaethau allweddol Byrddau Diogelu Rhanbarthol yw cynnal adolygiadau o ymarfer diogelu amlasiantaethol lle mae plentyn/oedolyn sy'n wynebu risg wedi marw neu wedi cael niwed sylweddol o ganlyniad i gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed fel cam-drin rhywiol neu gamfanteisio rhywiol. Diben yr adolygiadau hyn yw dysgu a gwella ymarfer.

Ers 2024, rydym wedi cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru sydd wedi dwyn ynghyd sawl math gwahanol o adolygiad diogelu:

- Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion
- Adolygiadau Lladdiadau Domestig
- Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl
- Adolygiadau Arfau Ymosodol

Datblygwyd Storfa Ddiogelu Cymru (y Storfa) i gefnogi'r broses o gyflwyno'r ADUS ac mae'n enghraifft o ddefnydd arloesol o ddysgu peiranyddol a deallusrwydd artiffisial a all hwyluso'r broses o ddysgu gwersi thematig cyflym o adolygiadau achosion. Gall y gwersi thematig hyn lywio ymatebion amserol drwy fabwysiadu arferion gorau neu welliannau i bolisiâu. Mae'r Storfa, a grëwyd gan Sefydliad Arloesi er Diogelwch, Troseddau a Chudd-wybodaeth Prifysgol Caerdydd¹⁷, yn gweithredu fel storfa ddigidol gynhwysfawr sy'n cyfuno'r adolygiadau diogelu a gynhaliwyd yng Nghymru ers 2008 ar un llwyfan y gellir ei chwilio. Daeth yr adnodd hwn, a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu, llunwyr polisi ac ymchwilwyr, yn adnodd 'byw' ym mis Ionawr 2026.

Y ffordd orau o ddangos y potensial ar gyfer system o'r fath yw drwy enghraifft. Cyn ei lansio i weithwyr proffesiynol ym maes diogelu, roedd y Storfa yn galluogi ymchwilwyr i asesu arferion da neu arferion gorau mewn adolygiadau blaenorol. Cyhoeddwyd 'What Do Previous Safeguarding Reviews Tell Us About Best Practice'¹⁸ ym mis Hydref 2025. Mae'r adroddiad yn dadansoddi 183 o adolygiadau sy'n cael eu cadw yn y Storfa (ym mis Gorffennaf 2025), gyda dyddiadau cyhoeddi yn amrywio o 2008 i 2025. Mae maint y sampl hwn yn sylweddol fwy na samplau'r adolygiadau thematig a gynhaliwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Mae'r dadansoddiad hwn o nifer mawr o'r adroddiadau sy'n cael eu cadw yn y Storfa wedi rhoi dealltwriaeth gliriach o'r hyn sydd wedi'i ystyried yn 'arfer gorau' mewn adolygiadau diogelu yng Nghymru rhwng 2008 a 2025, ond nid yw'n dangos enghreifftiau ehangach o arfer gorau ar draws sectorau.

¹⁷ <https://www.cardiff.ac.uk/cy/security-crime-intelligence-innovation-institute>

¹⁸ <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/182643/1/Best%20practice%20research%20report%20%282025%29.pdf>

Crynodeb Gweithredol

Yr hyn sy'n gweithio'n dda yn ein model llywodraethiant diogelu presennol

- ✓ Ar y cyfan, mae cydberthnasau gwaith cryf yn bodoli o fewn Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rhwng Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- ✓ Ystyrir bod sefydlu proses a Hwb ADUS yn gam cadarnhaol tuag at wreiddio'r broses o ddysgu o adolygiadau, ond gan mai megis dechrau cael eu cyhoeddi y mae'r adolygiadau cyntaf, nid yw hyn wedi'i ffurfio'n llawn eto.
- ✓ Mae gan Gymru sylfaen deddfwriaethol gadarn drwy *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, wedi'i chefnogi gan weithdrefnau diogelu cenedlaethol clir sydd ar gael i bawb drwy ap Diogelu Cymru.
- ✓ Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi helpu i sefydlu cyfrifoldeb a rennir am ddiogelu ym mhob rhan o'r system.
- ✓ Dangosodd y penderfyniad i greu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ymrwymiad cenedlaethol cryf i graffu ar y trefniadau llywodraethiant.
- ✓ O ran Diogelu Oedolion, ymddengys fod Cymru mewn sefyllfa gryfach na gwledydd eraill, nad oes gan rai ohonynt hyd yn oed ddiffiniad o hyn mewn deddfwriaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella yn ein model llywodraethiant diogelu presennol

- ✓ Mae angen mwy o gysondeb ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o ran canllawiau a chraffu.
- ✓ Mae angen egluro rolau Byrddau/asiantaethau o fewn y strwythurau llywodraethiant a chynyddu capasiti ymchwil, a hynny ym mhob rhan o'r system.
- ✓ Mae angen i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gael mwy o ddadansoddiadau cenedlaethol, adroddiadau thematig a gwybodaeth strategol gan Lywodraeth Cymru – gan gryfhau'r cysylltiad rhwng y data a gyflwynir a'r defnydd ystyrlon ohonynt.
- ✓ Mae angen dull cyson o ymdrin â chapasiti Unedau Busnes
- ✓ Mae angen eglurder ynghylch rôl a diben y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- ✓ Mae'r trydydd sector o'r farn bod angen diffinio'r canllawiau ar 'ac eraill' yn well er mwyn rhoi statws cyfartal iddynt fel atgyfeirwyr.
- ✓ Mae sefydliadau chwaraeon a ffydd yn teimlo bod ymatebion i atgyfeiriadau gan Swyddi Cyfrifol yn anghyson.

- ✓ Mae grwpiau chwaraeon a ffydd sy'n gweithio mewn cymunedau yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol oni bai bod digwyddiad difrifol wedi digwydd neu fod ganddynt gysylltiad proffesiynol blaenorol.

Trefniadau Llywodraethiant Cenedlaethol – Adborth ar y System a Goblygiadau

Mae adborth o bob rhan o'r system ddiogelu yn dangos tirwedd sy'n ymrwymedig, yn brofiadol ac yn frwdfrydig, ond sy'n gymhleth yn strwythurol ac nad yw'n cyfateb yn ddigonol i faint a natur yr heriau a wynebier yng Nghymru heddiw ym maes diogelu.

Ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, yr Unedau Busnes a'r Arolygiaethau, mae ewyllys da cryf ac arloesedd lleol, ond hefyd amrywiadau, achosion o ddyblygu a bylchau mewn atebolrwydd sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd cyfunol y system.

Mae cryfderau clir yn y cydweithio ar draws asiantaethau a gyda Llywodraeth Cymru, ond byddai mwy o eglurder a chysondeb strwythurol yn atgyfnerthu arweinyddiaeth, atebolrwydd ac effaith y system.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol – Yr hyn a glywsom

Ystyrir yn gyffredinol bod Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gyrff cynnull hanfodol, sy'n dod â phartneriaid statudol ac arbenigwyr lleol ynghyd. Fodd bynnag, mae adborth yn tynnu sylw'n gyson at y ffaith bod y trefniadau o ran aelodaeth yn anghyson. Mewn rhai mannau, mae strwythurau wedi tyfu'n gyflymach na gallu'r system i'w harwain a'u goruchwyllo.

Aelodaeth

- Mae aelodaeth Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn amrywio ar draws y rhanbarthau gyda chynrychiolaeth anghyson, yn enwedig o'r sector addysg. Nid oes safbwynt cenedlaethol clir ynghylch ai Cyfarwyddwyr neu Ddirprwy Gyfarwyddwyr Addysg sy'n cynrychioli'r system addysg gyfan orau. O ganlyniad, mae dylanwad y Byrddau a lefelau ymgysylltu yn amrywio ar draws y rhanbarthau.
- Nid yw'r trydydd sector na grwpiau ffydd wedi'u cynnwys yn systematig. Mae cyfranogiad yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol yn hytrach na llwybrau llywodraethiant clir. Er bod rhai awdurdodau lleol yn eu hystyried yn bartneriaid dibynadwy sy'n cynnig gwybodaeth werthfawr, mae eu cyfranogiad yn gyfyngedig; mewn rhai achosion, cynrychiolwyr ffydd yw'r unig gyfranogwyr allanol mewn hyfforddiant byrddau rhanbarthol.
- Dywedir bod y dirwedd aelodaeth yn "gymhleth", yn "anhrefnus" ac yn "ehangu'n barhaus". Mae nifer y blaenoriaethau wedi cynyddu'n sylweddol

heb eglurder cyfatebol ynghylch yr hyn y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio arno nac eglurder ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol.

- Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn teimlo bod ganddynt ormod o gyfrifoldebau o ganlyniad i agenda ddiogelu gynyddol gyda thwf cyfyngedig wedi'i gefnogi drwy drefniadau ariannu asiantaethau partneriaeth.
- Drwy dwf systemau mae diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a chwestiynau ynghylch a ddylai rheoleiddwyr fel AGC fod yn rhan o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a chyfarfod yn rheolaidd â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.
- Mae lefel awdurdod ac arbenigedd aelodau Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn destun pryder, ac awgrymwyd y gallai cael uwch-arweinwyr (er enghraifft ym maes iechyd) arwain at aelodau heb brofiad uniongyrchol o ddiogelu, ond yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch y gallu i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n cynrychioli asiantaethau yn gallu sicrhau newid.
- Mae angen rhagor o ganllawiau cenedlaethol ynghylch y disgwyliadau ar gyfer aelodau a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gan gynnwys proffiliau rôl i sicrhau bod aelodau'n deall eu rolau'n llawn ac yn cael eu dwyn i gyfrif gan aelodau ehangach y Bwrdd.
- Mae diogelu oedolion yn parhau i gael llai o flaenoriaeth na diogelu plant.
- Ymhlith yr heriau sy'n wynebu aelodau Byrddau Diogelu Rhanbarthol mae cyfrifoldebau aneglur, prosesau rhannu gwybodaeth darniog a data neu gapasiti dadansoddi annigonol.

Yr hyn sydd angen ei newid

1. Model aelodaeth y cytunwyd arno'n genedlaethol (gan gynnwys addysg), gyda disgwyliadau clir ynghylch presenoldeb, awdurdod a chyfraniad.
2. Llwybrau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â'r trydydd sector a ffydd, gan symud y tu hwnt i gynhwysiant sy'n seiliedig ar gydberthnasau.
3. Mwy o ffocws cenedlaethol ar agendâu Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gyda blaenoriaethau craidd yn cael eu nodi a'u monitro.
4. Map clir o rolau ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Arolygiaethau, gan gynnwys llif gwybodaeth ac uwchgysfeirio.
5. Ffocws cydradd ar ddiogelu oedolion wrth gynllunio, craffu a rhoi sicrwydd.
6. Capasiti dadansoddi cenedlaethol fel bod Byrddau yn gallu arwain ar risg, perfformiad a dysgu.

Arweinyddiaeth Byrddau Diogelu Rhanbarthol – Yr hyn a glywsom.

Ystyriwyd bod gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol arweinwyr medrus sy'n ymdrin â heriau amlasiantaethol yn effeithiol. Nid oedd Cadeiryddion Annibynnol yn cael eu ffafrio gan nad oes ganddynt ddealltwriaeth na chysylltiadau lleol. Roedd galw am

ddull mwy cyson, sy'n seiliedig ar gymhwysedd o arwain Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gyda phrosesau clir ar gyfer rheoli risg, dysgu, a chydweithio amlasiantaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu.

Mae nifer o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol wedi mabwysiadu system cyd-gadeiryddion; er enghraifft, mae un bwrdd yn cael ei oruchwylio gan ddau Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, ac mae un arall yn cynnwys tri chyd-gadeirydd, gan gynnwys cyd-gadeirydd o elusen plant flaenllaw. Fodd bynnag, mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill yn parhau i ddefnyddio'r trefniant clasurol o un cadeirydd ac is-gadeiryddion. Beth bynnag fo'r strwythur, nododd y Byrddau a'u harweinwyr yn gyson fod rhannu dyletswyddau arwain yn fuddiol.

- Mae'r trefniadau arwain yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Nid oes fframwaith cymhwysedd safonol ar gyfer Cadeiryddion na dull cenedlaethol cyson o ymdrin â risg, dysgu ac uwchgyfeirio.
- Mae'r dirwedd arwain yn gymhleth, ac mae Byrddau yn aml yn teimlo bod ganddynt ormod o gyfrifoldebau o ganlyniad i agenda ddiogelu sy'n ehangu'n barhaus a diffyg eglurder ynghylch blaenoriaethau craidd.
- Mae galw parhaus am ganllawiau clir a mwy cyson gan Lywodraeth Cymru a/neu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau arweinwyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys yr angen am gymhwyseddau y cytunwyd arnynt ar gyfer cadeiryddion, ymgysylltu â'r Arolygiaethau a datblygu prosesau cenedlaethol ar gyfer rheoli risg, dysgu ac uwchgyfeirio.
- Ystyrir bod arweinwyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol effeithiol yn grymuso asiantaethau i gyflawni blaenoriaethau diogelu, cydlyn gwaith amlasiantaethol, a sicrhau dysgu a gwelliant parhaus. Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn elwa ar arweinyddiaeth sy'n cael ei llywio gan angen, risg a thystiolaeth, ac sy'n cynnal goruchwyliaeth glir dros berfformiad a chanlyniadau.
- Mae arweinwyr ac aelodau Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cael eu herio gan ddiffyg capasiti dadansoddi, dulliau anghyson o gymhwyso trothwyon mewn perthynas â fforymau Proffesiynol amlasiantaethol, a'r angen am ddulliau mwy systematig o hyfforddi, rhannu gwybodaeth, a gwerthuso.
- Er bod ffocws clir yng Nghymru ar Ddiogelu Oedolion, rhoddir llai o sylw strategol iddo na Diogelu Plant, ond mae galw ar arweinwyr i gynyddu ei bwysigrwydd.
- Mae angen modelau arwain sy'n meithrin llywodraethiant rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol.
- Dylid symleiddio'r broses o gysoni â strwythurau eraill, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau VAWDASV ac egluro sut mae Diogelu Corfforaethol yn rhyngwynebu â Byrddau Gwasanaethau Cymdeithasol i osgoi gorgyffwrdd. Mae'r diffyg cysondeb rhwng ffiniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn achosi cymhlethdodau

gweithredol. (Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod Diogelu yn rhan o agendâu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.)

- Mae sicrwydd yn dibynnu gormod ar wybodaeth awdurdodau lleol, gan gyfyngu ar safbwynt amlasiantaethol ar risg a pherfformiad.

Yr hyn sydd angen ei newid

1. Fframwaith cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer arweinwyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol (Cadeiryddion, Cyd-gadeiryddion, Is-gadeiryddion) gyda chyfnod sefydlu, cymorth ac arfarnu.
2. Prosesau safonol ar gyfer rheoli risg, dysgu ac uwchgyfeirio, gan gynnwys rôl Arolygiaethau.
3. Mandad diogelu cytbwys (oedolion a phlant) wedi'i ymgorffori yn amcanion arweinwyr.
4. Cysoni â Diogelwch Cymunedol, VAWDASV a Diogelu Corfforaethol; cysoni ffiniau neu brotocolau ffurfiol â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
5. Sicrwydd amlasiantaethol sy'n defnyddio data gan y sector iechydd, heddlu, addysg a'r trydydd sector – nid ffurflenni data awdurdodau lleol yn unig.

Unedau Busnes – Yr hyn a glywsom

Ledled Cymru, cydnabyddir yn gyson fod unedau busnes yn hanfodol i weithrediad ac effeithiolrwydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Yn hytrach na bod yn gyrrff gweinyddol yn unig, ystyrir bod unedau busnes yn ysgogwyr strategol, sy'n cydlynu prosesau llywodraethu craidd ac yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd.

Mae Unedau Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn amrywio o ran maint, sy'n arwain at gapasiti gwahanol i ymdrin â llwythi gwaith heriol y gall adolygiad blaenllaw neu gynnydd sydyn yn nifer yr ADUSau (Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn flaenorol) effeithio'n hawdd arnynt. Mae gan un Bwrdd Uned Fusnes â saith aelod o staff llawn amser, ond mae gan eraill lai o gapasiti o lawer. Nid oes fformiwla ariannu partneriaeth y cytunwyd arno yn genedlaethol ar gyfer y cymorth busnes hanfodol hwn. Ystyriwyd bod y gyllideb er mwyn i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gyflawni a chefnogi'r ADUSau yn hanfodol, a chodwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r model ADUS yn cael ei gynnal heb y staff allweddol a benodwyd gan ddefnyddio'r cyllid hwn.

Mae Unedau Busnes yn amrywio o ran lleoliad: mewn un Bwrdd mae wedi'i lleoli yn y 'Ganolfan Gorfforaethol' o fewn y gyfarwyddiaeth Perfformiad a Phartneriaethau ac nid yw'n rhan o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, er ei bod yn cael ei rheoli gan rywun sydd â gwybodaeth sylweddol am ddiogelu a phrofiad sylweddol yn y maes. Teimlwyd bod y model hwn yn caniatáu trefniadau mwy ffurfiol o oruchwylio a chyflawni'r blaenoriaethau a'i fod yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r neges bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mewn Bwrdd arall mae wedi'i lleoli yn y Ganolfan Gorfforaethol ond mae'n cael ei rheoli gan weithiwr proffesiynol nad oes ganddo wybodaeth am

ddiogelu na phrofiad yn y maes, a dywedir bod hyn yn achosi problemau o ran deall blaenoriaethau ac anghenion brys. Roedd cytundeb sylweddol bod Unedau Busnes:

- Yn allweddol wrth ddatblygu a chynnal prosesau llywodraethu craidd, fel rheoli risg, fframweithiau hunanasesu, archwilio a sicrhau ansawdd, a fframweithiau dysgu a gwella.
- Yn hanfodol i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol dros flaenoriaethau, perfformiad a risgiau – mae angen dulliau Cymru gyfan o ymdrin â'r prosesau hyn.
- Yn wynebu amrywiadau sylweddol o ran capasiti mewn rhanbarthau gwahanol, sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu'n effeithiol.
- Yn gweithredu mewn tirwedd diogelu gymhleth, sy'n tynnu sylw at yr angen i symleiddio er mwyn sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau a phrosesau.
- Yn galluogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol i symud y tu hwnt i ddulliau adweithiol a chanolbwyntio ar ymarfer rhagweithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Yn wynebu heriau o ran eu cyllidebau, wrth i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a'u haelod-asiantaethau wynebu pwysau ariannol.
- Mae angen un pwynt cyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn symleiddio cyfathrebu a lleihau dryswch i Unedau Busnes.

Yr hyn sydd angen ei newid

1. Manyleb genedlaethol sylfaenol a luniwyd ar y cyd ar gyfer Unedau Busnes (swyddogaethau, sgiliau, capasiti gofynnol) a chymorth ar gyfer dull ariannu partneriaeth teg.
2. Templedi cenedlaethol cyson ar gyfer risg, hunanasesu, archwilio a dysgu (gan gynnwys fforymau proffesiynol amlasiantaethol).
3. Lleoli ac arwain Unedau mewn ffordd sy'n diogelu annibyniaeth ddadansoddol a goruchwyliaeth system gyfan.
4. Un rhyngwyneb Llywodraeth Cymru ar gyfer Unedau Busnes i leihau achosion o ddyblygu ac oedi.

Adborth manwl ar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Galwodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol am fwy o bwerau, gan gynnwys y gallu i fynnu gwybodaeth ac adroddiadau gan arolygiaethau ac i fonitro'r broses o roi argymhellion ar waith yn ffurfiol. Teimlir bod angen egluro rôl y Bwrdd o ran rhoi sicrwydd i Weinidogion a meithrin cydberthnasau â chyrff eraill, yn enwedig yng ngoleuni'r fframwaith ADUS, er mwyn sicrhau hygyrddedd ac effeithiolrwydd.

- Cydnabyddir yn gyffredinol y gallai'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fod yn endid gwerthfawr yn nhirwedd diogelu Cymru, ond mae rhanddeiliaid

yn nodi cyfyngiadau yn gyson o ran ei gylch gwaith, ei adnoddau a'i ddylanwad presennol.

- Dywedir mai cydberthynas unffordd sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol i raddau helaeth, ac nad yw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol bob amser yn cynnig gwerth ychwanegol, yn cyflawni rôl gefnogol glir nac yn cyd-lunio cynlluniau'n rhagweithiol â Byrddau Diogelu Rhanbarth. Teimlir hefyd nad oes llawer o ymgysylltu ag arolygiaethau, ac mae galw am gydweithio a rhannu gwybodaeth mwy rheolaidd.
- Nid yw cylch gwaith ac effaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol bob amser yn glir i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ac mae'r ymgysylltu'n cael ei arwain gan yr aelodau yn hytrach na rôl glir.
- Mae angen i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fod yn fwy gweladwy a chyflwyno strategaeth gyfathrebu gadarn.
- Mae angen i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fod yn fwy rhagweithiol a chydweithredol a chael ei arwain gan wybodaeth.
- Croesawodd grwpiau ffydd eu cyswllt cyfyngedig â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fel llwybr i'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu.
- Ers datblygu'r ADUS, mae'r angen am adolygiad thematig blynyddol cenedlaethol ar ei ffurf bresennol yn creu risg o ddyblygu.
- Mae awydd i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ymgysylltu'n fwy systematig â Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gan symud y tu hwnt i ddull adweithiol neu gyfnodol.
- Barn gyfyngedig oedd y dylai fod gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol bwerau i ddwyn asiantaethau a Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gyfrif yn ogystal â threfniadau cliriach ar gyfer goruchwyllo'r broses o roi argymhellion adolygiadau ar waith. *(Mynegwyd y farn hon gan gyn-gydweithwyr yr heddlu a oedd yn fwy awyddus na'r cyfranogwyr eraill i weld strwythur gorchymyn a rheoli)*
- Roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn y gallai datblygu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol helpu i gydlynu dull strategol gwell ledled Cymru.

Yr hyn sydd angen ei newid

1. Datganiad cyhoeddus clir o rôl, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ymwneud â Llywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ADUS/Storfa Ddiogelu Cymru ac Arolygiaethau.
2. Ymgysylltu rheolaidd, wedi'i gynllunio â Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac Arolygiaethau
3. Cynllun blynyddol clir sy'n llywio ei adroddiad blynyddol i hyrwyddo rôl a gwerth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Yr Arolygiaethau – Yr hyn a glywsom

Ystyrir yn gyffredinol bod yr Arolygiaethau yn hanfodol i sicrhau llywodraethiant effeithiol ym maes diogelu, ac mae awydd cryf am drefniadau gweithio mwy integredig, gweladwy a chydweithredol ar draws y dirwedd. Cyfeiriwyd at ymgysylltu rheolaidd, uniongyrchol â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, capasiti dadansoddi a rennir, a mwy o rôl wrth feithrin diwylliant o ddysgu ac atebolrwydd ledled Cymru.

- Maent yn aml yn ymgysylltu ag unigolion, nid Byrddau, sy'n arwain at wybodaeth dameidiog ac at golli cyfleoedd i gysoni gwelliannau.
- Dylai'r Arolygiaethau gyflwyno canfyddiadau eu harolygiadau yn uniongyrchol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol fel mater o drefn.
- Ystyriwyd bod arolygiadau ar y cyd gan yr Arolygiaethau yn well nag arolygiadau sengl.
- Cydnabyddir bod yr Arolygiaethau yn bwysig i ddarparu her a sicrwydd allanol ond eu bod yn rhy bell o ymarfer diogelu o ddydd i ddydd – byddai hyfforddiant ar y cyd a phrosesau rhannu gwybodaeth yn codi safonau ar draws asiantaethau.
- Roedd angen eglurder ynghylch sut mae'r Arolygiaethau yn cael sicrwydd bod eu methodolegau'n gadarn.
- Cyfarfodydd blynyddol mwy ffurfiol a strwythuredig rhwng yr Arolygiaethau a Byrddau Diogelu Rhanbarthol ond nid sedd ar y Byrddau, gan y gallai hyn gymylu'r ffiniau rhwng craffu, cymorth a llywodraethu.
- Cydnabyddir bod angen mecanweithiau tryloyw a chadarn i ddwyn arolygiaethau i gyfrif, yn enwedig o ystyried eu rôl ddylanwadol wrth fonitro a gwerthuso ymarfer diogelu ar draws asiantaethau.
- Roedd cefnogaeth gyfyngedig i'r Arolygiaethau gysoni eu gweithgareddau arolygu a sicrwydd â fframweithiau diogelu cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, fel "Pum Maes Allweddol Effeithiolrwydd Diogelu" a ddatblygwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Yr hyn sydd angen ei newid

1. Cyflwyno canfyddiadau arolygiadau yn uniongyrchol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol fel mater o drefn, gyda chymau dilynol ac olrhain clir.
2. Cyfuno gwybodaeth ar draws yr Arolygiaethau, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a phartneriaid; dadansoddi ar y cyd i gefnogi dysgu system – swyddogaeth dadansoddi ganolog.
3. Ymgysylltu blynyddol strwythuredig rhwng yr Arolygiaethau a'r Byrddau; nid oes gan yr Arolygiaethau seddi ar y Byrddau fel mater o drefn (er mwyn osgoi cymylu'r ffiniau wrth graffu a llywodraethu).
4. Eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth ar ôl ADUS: arolygu, sicrwydd, uwchgyfeirio a dysgu cenedlaethol.

Yr hyn sydd angen ei wella – Sut y gallwn gyrraedd y lefel nesaf?

- Rhaid rhesymoli'r dirwedd lywodraethu bresennol sy'n "gymhleth, yn anniben ac yn ehangu'n barhaus".
- Mae angen mynd i'r afael â'r capasiti cyfyngedig ar gyfer ymchwil i ofal cymdeithasol mewn llywodraeth ganolog.
- Eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, pwerau, disgwyliadau a chydberthnasau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Arolygiaethau fel y system lywodraethu.
- Rhaid rhoi'r un flaenoriaeth i ddiogelu oedolion â diogelu plant a phobl ifanc, o ran aelodaeth Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac o ran gosod yr agenda.
- Mae angen canllawiau cenedlaethol i ddiffinio blaenoriaethau craidd a meysydd ffocws ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gan eu hatal rhag ysgwyddo gormod o gyfrifoldebau a galluogi agenda ddiogelu fwy strategol – dylid ystyried cynllun diogelu strategol cenedlaethol.
- Mae angen capasiti dadansoddi a gwerthuso o fewn y system.
- Dull cenedlaethol o werthuso ymyriadau i lywio dewislen 'Yr Hyn sy'n Gweithio' i alluogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fanteisio ar ymyriadau a arweinir gan dystiolaeth.
- Dylai gwersi a ddysgwyr o'r amrywiaeth lawn o adolygiadau achos a phrofiadau lywio ein gwaith cynllunio. Symud ein ffocws o enghreifftiau eithafol i'r hyn sy'n sicrhau canlyniadau llwyddiannus i unigolion a theuluoedd yng Nghymru.

Casgliad ac argymhellion

Wrth i wasanaethau ddatblygu, mae'n hanfodol bod fframweithiau llywodraethiant yn addasu yn unol â hynny. Mae cylch gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o dan bwysau cyson i addasu a chynnwys materion sy'n dod i'r amlwg.

Fel rhan o'r Adolygiad hwn, archwiliodd Tîm Ymchwil Llywodraeth Cymru y trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu mewn rhannau eraill o'r byd. Dangosodd yr ymchwil amrywiadau sylweddol o ran y graddau y caiff y trefniadau llywodraethiant eu rheoli, naill ai ar lefel ganolog neu ranbarthol.

Yn y rhan fwyaf o wledydd, mae'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer plant a phobl ifanc yn wahanol i'r rhai ar gyfer oedolion, ac mae llai o graffu ar ddiogelu oedolion yn gyffredinol. Mae'r sefyllfa yn wahanol yng Nghymru, lle mabwysiadodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddull cynhwysfawr dros gwrs bywyd, gan gydnabod y gallai fod gan bawb yng Nghymru anghenion gofal a chymorth ar adegau gwahanol yn eu bywydau.

Atgyfnerthu ein Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Diogelu dros y degawd nesaf

Roedd yr holl sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd at yr Adolygiad hwn yn cydnabod cryfderau presennol y trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru. Roeddent o'r farn bod y cryfderau hyn yn sylfeini hanfodol i adeiladu arnynt ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nododd y cyfranogwyr hefyd yr angen i symleiddio'r prosesau llywodraethiant presennol er mwyn sicrhau bod y system yn datblygu i fynd i'r afael â heriau cyfoes a bygythiadau newydd. Ochr yn ochr â galwadau am strwythur llywodraethiant symlach, cydnabuwyd bwysigrwydd rolau a chyfrifoldebau cliriach ar gyfer pob elfen o'n system llywodraethiant bresennol ar gyfer diogelu – yr Arolygiaethau, y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Dywedwyd bod cyfansoddiad presennol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, yn ogystal â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Arolygiaethau yn cefnogi cydberthnasau gwaith da. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng partneriaid, o fewn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ar draws y fframwaith llywodraethiant ehangach ar gyfer diogelu. Mae asiantaethau'n nodi'n gyson bod y partneriaethau cadarn hyn yn galluogi her adeiladol. Mae'n hanfodol bod y sylfeini hyn yn cael eu cynnal a'u hatgyfnerthu ymhellach.

Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy ymgorffori cyd-gynhyrchu a chydweithio ym mhob rhan o'r system llywodraethiant ar gyfer diogelu. Mae'r dull hwn yn helpu i gynnal cysondeb a datblygu diwylliant dysgu cyfoethog.

Nod Cam 1 oedd archwilio'r canlynol:

- Rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol;
- Y rhyngwyneb rhwng y cyrff hyn a'r Arolygiaethau;
- Effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau hyn wrth amddiffyn pobl rhag niwed;
- Argymhellion i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru ymhellach.

Mae'r Adolygiad hwn o'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru wedi canfod bod awydd i wella ym mhob rhan o'r system bresennol. Ddeng mlynedd ers i'r trefniadau presennol gael eu rhoi ar waith, gallwn weld yr hyn sy'n gweithio'n dda a ble y gellir gwneud gwelliannau. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig dadl gymhellol o wella systemau i newid trawsnewidiol.

Yn Lloegr, mae'r cynnig i sefydlu Awdurdod Diogelu Plant—a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn 2022 ar gyfer Cymru a

Lloegr—yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Ei brif nod yw gwella arweinyddiaeth y system, gwella prosesau rhannu gwybodaeth, mynd i'r afael â risgiau fel y rhai a nodwyd yn Adroddiad Casey ar gangiau grŵmio, a sicrhau atebolrwydd ymhlithartneriaid diogelu lleol. Ni chafwyd unrhyw alwadau am awdurdod tebyg yng Nghymru fel rhan o'r Adolygiad hwn; yn lle hynny, awgrymwyd y gallai adeiladu ar endidau presennol fel y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Bwrdd Gweinidogol ddarparu'r arweinyddiaeth a'r oruchwyliaeth angenrheidiol. Cydnabuwyd yn eang, pe bai cylch gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn datblygu, y byddai angen darparu adnoddau ar gyfer y datblygiad hwn.

Er mwyn i strwythur llywodraethiant symlach fod yn effeithiol, rhaid inni rannu cynllun clir, sy'n caniatáu ar gyfer yr amrywiadau rhanbarthol sydd eu hangen i adlewyrchu anghenion ein cymunedau amrywiol yng Nghymru. Er bod annibyniaeth yn bwysig o fewn unrhyw strwythur llywodraethiant, rhaid sefydlu atebolrwydd a pherchnogaeth glir hefyd. Mae pob bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn deall ei gymunedau, a rhaid inni adeiladu ar hyn er mwyn goruchwyllo dulliau diogelu, gan deilwra gwasanaethau yn unol ag anghenion cymunedau lleol a dehongli canllawiau cenedlaethol yn briodol.

Mae'r dull hwn yn cydnabod amrywiaeth cymunedau Cymru ac ystyrir ei fod yn gryfder. Fodd bynnag, canfu'r Adolygiad hefyd y gall amrywiadau o'r fath greu heriau i sefydliadau Cymru gyfan, fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), ac i sefydliadau ffydd, chwaraeon a thrydydd sector cenedlaethol. Er bod y sefydliadau hyn wedi'u nodi'n bartneriaid diogelu hanfodol yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gwnaethant nodi anawsterau wrth ymgysylltu'n gyson â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Cynyddu cydweithio – dull a rennir

Drwy gydol y cyfarfodydd ymgynghori, cydnabuwyd yn eang fod angen dealltwriaeth gliriach o rolau a chyfrifoldebau Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a'r Arolygiaethau er mwyn sicrhau cydweithio gwell rhwng pob endid. Mae'r materion hyn yn cael eu cuddio ymhellach gan lwyth gwaith sylweddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Unedau Busnes ategol.

Creu system a arweinir gan wybodaeth

Mae dangosfwrdd diogelu data prototeip Llywodraeth Cymru a gefnogir gan y Swyddfa Genedlaethol wedi'i groesawu, gan ei fod yn galluogi ALLau a Byrddau Diogelu Rhanbarthol i graffu a meincnodi yn erbyn awdurdodau cyfagos ac ar lefel Cymru gyfan. Er bod y gwaith hwn wedi'i groesawu, mae angen ei gyflymu a'i ehangu.

Mae pob asiantaeth yn casglu data, ond nid oes system glir ar gyfer rhannu'r data hyn yn rheolaidd â phwynt canolog ar draws pob asiantaeth fel bod modd goruchwyllo'r system gyfan. Mae gan yr Arolygiaethau ddadansoddwyr a

gwybodaeth ddefnyddiol, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chrynhai a'i chyflwyno'n gyson lle ceir atebolrwydd amlasiantaethol.

Gallwn gael darlun cynhwysfawr o risg ac ymarfer drwy ddwyn ynghyd: fforymau proffesiynol amlasiantaethol, adolygiadau marwolaethau plant sy'n cynnwys elfennau diogelu, canfyddiadau prosesau sicrhau ansawdd Byrddau Diogelu Rhanbarthol, cyngor gan grwneriaid, adolygiadau Cyfiawnder Ieuencid a Throseddau Pellach Difrifol, gwersi a ddysgwyd o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd 3, a chynhyrchion yr Arolygiaethau.

Yr hyn sydd ar goll yw cartref sefydlog ar gyfer y swyddogaeth dadansoddi ac un fframwaith gwybodaeth cadarn. Roedd y rhanddeiliaid yn glir: y byddai model gwybodaeth a rennir cydlynol yn gwella prosesau cynllunio, blaenoriaethu a sicrwydd, ac yn symud y system o adrodd ar gydymffurfiaeth i drefniadau diogelu sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Argymhelliad 1 - Sefydlu Bwrdd Goruchwylio Arferion Diogelu Gweinidogol


Mae cryfderau presennol y Bwrdd Gweinidogol ar ADUS yn dangos pŵer y gwaith craffu a goruchwylio hwn ond rhaid ehangu hyn i gynnwys pob ffynhonnell gwybodaeth sydd ar gael yn y sector. Byddai Bwrdd o'r fath yn darparu'r trylwyredd i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethiant yn gweithio'n effeithiol ac yn rhoi trosolwg tryloyw i'r Gweinidog a'r Llywodraeth o arferion diogelu yng Nghymru.

Argymhelliad 2 – Hwb Gwybodaeth Canolog

1. Dynodi lleoliad y swyddogaeth dadansoddi graidd a darparu adnoddau ar ei chyfer i gefnogi'r dirwedd Cymru gyfan
2. Cyhoeddi cylch dadansoddi safonol
3. Mabwysiadu templedi cyffredin ar gyfer risg, dysgu a pherfformiad fel bod Byrddau yn gallu cymharu a gweithredu.

Er bod meysydd lle mae angen rhagor o ddata, nid yw hyn yn ymwneud â chasglu mwy o ddata. Mae'n ymwneud â defnyddio'r hyn sydd gennym eisoes – gyda'n gilydd – fel bod arweinwyr yn gallu nodi risgiau yn gynt a gweithredu'n gyflymach.

System sy'n cael ei llywio gan wybodaeth



Adolygiadau Troseddau Pellach Difrifol / Trefniadau Amlasiantaeth Diogelu'r Cyhoedd*

Sicrwydd Ansawdd Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Fforymau Ymarferwyr Amlasiantaeth**

Argymhelliad 3 – Cynllun Diogelu Cenedlaethol

Dylai'r system ddatblygu wrth i wersi i'w dysgu ddod i'r amlwg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae sawl ffynhonnell yn cyhoeddi argymhellion ac amserlenni ar wahân, heb roi llawer o sylw i'r galw ar y system gyfan, capasiti na phrosesau blaenoriaethu. Mae hyn yn arwain at ymdrech heb ffocws.

Yr ateb yw un cynllun cenedlaethol y mae pawb yn gweithio tuag ato. Byddai Cynllun Diogelu Cenedlaethol, a luniwyd ar y cyd â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Arolygiaethau, yn gosod blaenoriaethau a rennir clir ac un amserlen gwella, gan olygu bod modd teilwra camau gweithredu yn lleol o fewn paramedrau cenedlaethol y cytunwyd arnynt i adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ledled Cymru.

Dylai'r Cynllun fod yn seiliedig ar wybodaeth (gan ddefnyddio ADUS/Storfa Ddiogelu Cymru, canfyddiadau'r Arolygiaethau a phrosesau sicrhau ansawdd amlasiantaethol), a dylid craffu arno er mwyn meithrin dealltwriaeth glir. Byddai'r Cynllun, gyda Chofrestr Risgiau Diogelu Genedlaethol gysylltiedig, yn rhoi gwybodaeth barhaus i Weinidogion am risgiau system, cynnydd ac unrhyw fygythiadau newydd.

Yr hyn sydd angen ei wneud nawr – Cynllun Diogelu Cenedlaethol

1. Dylid llunio un Cynllun Diogelu Cenedlaethol, gan nodi rhwng chwech ac wyth blaenoriaeth a chanlyniad cenedlaethol.
2. Dylid datblygu Cofrestr Risgiau Diogelu Genedlaethol gysylltiedig ochr yn ochr â'r Cynllun.
3. Dylai'r Cynllun gael ei lunio ar y cyd â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Arolygiaethau, a dylai'r Bwrdd Gweinidogol gytuno arno.
4. Dylid cysoni gweithgareddau gwella presennol â'r Cynllun, gan oedi neu ad-drefnu tasgau nad ydynt yn cyd-fynd ag ef.
5. Dylid cyhoeddi un templed adrodd cenedlaethol ar gyfer risg, dysgu, perfformiad ac effaith.
6. Dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol gyhoeddi adroddiadau chwarterol yn erbyn y Cynllun.
7. Dylid adnewyddu'r Cynllun a'r Gofrestr Risgiau yn flynyddol, yn seiliedig ar wybodaeth sy'n dod i'r amlwg a gwersi a ddysgwyd.

Argymhelliad 4 – Mwy o rôl i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Roedd y trafodaethau a gafwyd fel rhan o'r Adolygiad yn glir, pe bai'r Bwrdd Diogelu Amddiffyn Cenedlaethol yn cael rhagor o gyfrifoldebau, y byddai ei gapasiti presennol yn annigonol i gyflawni'r dyletswyddau hynny'n effeithiol.

Dylid ystyried trefniadau tebyg i Fwrdd Ymddiriedolaeth y GIG, gan ddarparu'r capasiti cynyddol sydd ei angen i graffu ar y system, ei goruchwyllo a'i harwain yn barhaus.

O dan fodel wedi'i atgyfnerthu, byddai rôl ymarferol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ehangu i gynnwys:

- Cefnogi'r broses o gyd-lunio'r Cynllun Diogelu Cenedlaethol
- Goruchwyllo Cofrestr Risgiau'r Cynllun
- Hwyluso adolygiadau gan gymheiriaid rhwng Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Llunio cynllun blynyddol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a gaiff ei gymeradwyo gan Weinidogion, yn amodol ar lythyr cylch gwaith i sicrhau rolau a chylchoedd gwaith clir ar draws y dirwedd diogelu.

Yr hyn sydd angen ei wneud nawr

1. Dylid diffinio cylch gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer y dyfodol yn glir, gan nodi ei rôl o ran rhoi sicrwydd ac arwain y system mewn un datganiad cryno.
2. Dylid dyrannu adnoddau yn unol â'r cylch gwaith hwnnw y cytunwyd arno.

Dylid sefydlu cylch blynyddol clir, gan gyhoeddi llythyr cylch gwaith Gweinidogol bob blwyddyn a llunio Cynllun Busnes ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

mewn ymateb i hynny, gan ddarparu tryloywder, atebolrwydd a sicrwydd i Weinidogion.

Argymhelliad 5 – Dysgu o bob achos

Er mwyn dysgu o adolygiadau mewn modd cynhwysfawr, mae'n hanfodol eu bod yn cwmpasu amrywiaeth eang o achosion, gan gynnwys y rhai lle mae gwasanaethau wedi cydweithio'n llwyddiannus ag unigolion a theuluoedd i gyflawni canlyniadau sefydlog a diogel. Mae dysgu effeithiol hefyd yn dibynnu ar gael gwybodaeth o 'achosion cyffredin'. Mae'r senarios nodweddiadol hyn yn hanfodol wrth werthuso canlyniadau llwyddiannus, gan eu bod yn cynrychioli'r mwyafrif o atgyfeiriadau diogelu ac achosion lle mae unigolion a'u teuluoedd yn cael, neu lle y dylent gael, cymorth priodol mewn modd amserol a strwythuredig gyda chanlyniadau wedi'u diffinio'n glir y mae ymarferwyr a'r rhai dan sylw yn eu deall ac yn cytuno arnynt. Ledled y DU, bu tuedd i ganolbwyntio ar achosion sy'n ymwneud â niwed eithafol, gan anwybyddu'r achosion cyffredin hyn yn aml. Fodd bynnag, mae achosion o'r fath yn brin.

Argymhelliad 6 – Cytuno ar fformiwla ariannu partneriaeth Cymru gyfan ar gyfer yr Unedau Busnes

Mae Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, yr Unedau Busnes sy'n darparu arbenigedd gweithredol hanfodol. O fewn y fframwaith presennol, mae'r Unedau Busnes yn hwyluso'r broses o gyfnewid syniadau, arferion gorau, gwybodaeth o adolygiadau, a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg ymhlith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gan weithredu fel canolbwynt ar gyfer busnes y Byrddau. Er bod eu llwyth gwaith yn sylweddol, mae lefelau capasiti yn amrywio'n rhanbarthol oherwydd trefniadau ariannu partneriaeth etifeddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn a gwella effeithiolrwydd cyffredinol, ymddengys fod rhoi fformiwla ariannu partneriaeth y cytunwyd arno'n genedlaethol ar waith ar gyfer yr Unedau Busnes yn hanfodol i sicrhau bod pob partner yn cefnogi rôl y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Argymhelliad 7 – (Cam 2) Egluro rolau a chyfrifoldebau arwain o fewn y fframwaith llywodraethiant ar gyfer diogelu.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae diogelu wedi datblygu'n sylweddol, gan greu galw cryf i ddiffinio cyfrifoldebau cadeiryddion ac aelodau Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ymhellach. Nod yr eglurhad hwn yw sicrhau eu bod yn effeithiol dros y degawd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dogfen rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y rolau presennol. Caiff hyn ei briodoli i Gam 2, gan y bydd angen ystyried camau gweithredu Cam 1 i lywio'r ddogfen.

Argymhelliad 8 – (Cam 2) Gwella mecanweithiau i sefydliadau chwaraeon, ffydd a chred ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Mae timau gwaith cymdeithasol ac eirioli proffesiynol sylweddol ym maes diogelu mewn sefydliadau chwaraeon, ffydd a chred yng Nghymru. Mae'r rhain yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth, a rhaid i'r system llywodraethiant ar gyfer diogelu ymgysylltu â nhw'n systematig. Mae manteision hyn yn ddeublyg gan y bydd yn ehangu cyrhaeddiad diogelu i gymunedau llai adnabyddus ac yn codi statws diogelu o fewn strwythurau llywodraethiant eu sefydliad. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau ac mae gan sefydliadau chwaraeon bellach gylch cyfarfodydd arfaethedig gyda'r tîm Diogelu ac Eirioli yn Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn

1. Diben

1.1. Diben yr Adolygiad hwn yw gwerthuso'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y strwythurau craidd: y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a'r Arolygiaethau.

1.2. Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arferion diogelu yng Nghymru yn gadarn, yn ymatebol, ac yn canolbwyntio ar amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn faes ymarfer sy'n datblygu'n barhaus. Er mwyn sicrhau bod ein systemau'n parhau i fod yn effeithiol ac yn addas at y diben, rhaid iddynt gael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethiant presennol ar gyfer diogelu yng Nghymru.

1.3. Bydd yr Adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y systemau llywodraethiant presennol ar gyfer diogelu ac yn nodi cyfleoedd i gynyddu eglurder, arweinyddiaeth a sicrwydd. Bydd yn ystyried myfyrdodau'r Farwnes Casey yn ei harchwiliad cenedlaethol o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar sail grŵp, a dynnodd sylw at heriau sy'n deillio o gyfrifoldebau darniog a'r angen am arweinyddiaeth bendant a gwaith partneriaeth effeithiol.

2. Nodau ac Amcanion

Bydd yr Adolygiad hwn yn ceisio gwneud y canlynol:

2.1. Gwerthuso rolau a swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, gan gynnwys eu heffeithiolrwydd o ran sicrhau bod dyletswyddau diogelu yn cael eu cyflawni.

2.2. Ystyried y rhyngwyneb rhwng yr Arolygiaethau a systemau llywodraethiant ar gyfer diogelu, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

2.3. Nodi cyfleoedd i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethiant a gwella eglurder ac atebolrwydd systemau.

2.4. Rhoi myfyrdodau cydlynol ar y trefniadau presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, gan gynnwys newidiadau strwythurol neu weithdrefnol posibl.

2.5. Nodi meysydd targed ar gyfer gwaith pellach lle y gallai gwaith craffu neu ddatblygu ychwanegol fod yn fuddiol.

2.6. Ystyried sut mae systemau presennol yn cefnogi'r broses o ymgorffori gwersi a ddysgwyd o ymarfer diogelu, adolygiadau ac arolygiadau, gan gynnwys sut mae hyn yn llywio gwaith ymchwil ac yn cael ei lywio ganddo.

3. Cyd-destun

3.1. Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a chyflwynodd ddyletswyddau diogelu newydd ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol. Dros y degawd diwethaf, mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi datblygu o fyrddau ar gyfer awdurdodau lleol penodol i bartneriaethau rhanbarthol, gan uno byrddau oedolion a phlant yn aml.

3.2. Cododd archwiliad y Farwnes Casey o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp (Mai 2025) bryderon am gymhlethdod trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu, gan nodi "the multitude of organisations and splits in responsibilities do present challenges for clear, decisive leadership, effective partnership working and sharing of information."

3.3. Mae'r adolygiad hwn yn ymateb i'r pryderon hynny ac yn anelu at sicrhau bod systemau diogelu yng Nghymru yn parhau i fod yn effeithiol, yn ymatebol, ac i ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

4. Cwmpas

4.1. Bydd yr adolygiad yn ystyried:

4.2 Rolau statudol, cyfrifoldebau, ac effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

4.3 Y gydberthynas a'r mecanweithiau sicrwydd rhwng arolygiaethau a byrddau diogelu.

4.4 Y strwythurau llywodraethu sy'n cefnogi trefniadau diogelu amlasiantaethol.

4.5 Cyfleoedd i ddiwygio neu wella er mwyn cynyddu eglurder, atebolrwydd ac effaith.

5. Methodoleg

5.1. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan Jan Pickles OBE, arbenigwr uchel ei pharch ym maes diogelu sydd â phrofiad helaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn gweithredu'n annibynnol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd cyfredol a meysydd i'w gwella.

5.2. Bydd yn ymgysylltu'n ganolog â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Cadeirydd, Is-gadeirydd, ac aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, ac aelodau cyfansoddol Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Uwch-arweinwyr a thimau arwain yr Arolygiaethau
- Y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn

5.3. Bydd Jan Pickles hefyd yn gweithio gydag asiantaethau ehangach fel y gwêl yn briodol. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn aeddfedu ac yn datblygu wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, gan olygu bod modd archwilio themâu a safbwyntiau sy'n dod i'r amlwg yn fanylach.

5.4. Bydd y tîm adolygu hefyd yn ystyried data perthnasol, archwiliadau blaenorol, a modelau cymharol o wledydd eraill yn y DU lle y bo'n briodol.

6. Llywodraethu

6.1. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan Jan Pickles OBE, a fydd yn gweithredu'n annibynnol drwy gydol y broses.

6.2. Bydd Jan Pickles yn cyflwyno ei hadroddiad terfynol i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, a gomisiynodd y gwaith hwn.

6.3. Bydd yn defnyddio ffynonellau arbenigedd fel y gwêl yn dda yn ystod yr adolygiad. Gall hyn gynnwys arbenigwyr academiaidd, gweision sifil, ac arbenigwyr yn y sector (ymhlith rhai eraill).

7. Amseru ac Adrodd

7.1. Cynhelir yr adolygiad rhwng mis Hydref 2025 a gwanwyn 2026.

7.2. Cyflwynir adroddiad terfynol i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn ystod gwanwyn 2026. Bydd yr adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Atodiad 2: Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad hwn

Dosbarthwyd y Cylch Gorchwyl ar ddechrau'r broses adolygu, a chafodd diwygiadau eu hannog a'u hymgorffori.

Adolygwyd yr wybodaeth ganlynol i lywio'r adroddiad hwn:

- Gwybodaeth gan Uned Ymchwil Llywodraeth Cymru am sut mae gwledydd eraill ledled y byd yn rheoli trefniadau llywodraethiant eu swyddogaethau diogelu (gweler rhagor o wybodaeth yn Atodiad IV).
- Ymchwil ar effeithiolrwydd strwythurau llywodraethiant amlasiantaethol ar gyfer diogelu yn y DU.
- Tystiolaeth ymchwil ar sut beth yw llywodraethiant da
- Papurau/adolygiadau pwysig ac ati

Yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori, gofynnodd yr Adolygiad i'r cyfranogwyr:

- Beth yw'r rhyngwyneb rhwng y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Arolygiaethau?
- Beth sy'n gweithio'n dda yng Nghymru?
- Beth sydd angen ei atgyfnerthu?
- A oes meysydd eraill y mae angen eu hadolygu'n fanylach?
- Sut byddai model atebolrwydd ar gyfer diogelu yn gweithio yn y dyfodol, yn eich barn chi?
- Beth yw'r rhyngwyneb rhwng y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Arolygiaethau?
- Beth sy'n gweithio'n dda yng Nghymru?
- Beth sydd angen ei atgyfnerthu?
- A oes meysydd eraill y mae angen eu hadolygu'n fanylach?
- Sut byddai model atebolrwydd ar gyfer diogelu yn gweithio yn y dyfodol, yn eich barn chi?

Yn ystod yr Adolygiad hwn, ymgynghorwyd â 69 o sefydliadau ac unigolion rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Mawrth 2026 ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad III.

Codwyd cwestiynau'r Adolygiad a chafwyd sylwadau yn y cynadleddau canlynol ledled Cymru

1. Cynhadledd Penaethiaid Gogledd Cymru – Conwy 06.02.26
2. Cynhadledd Trais a Cham-drin Rhywiol – Conwy 02.02.26
3. Cynhadledd Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru – Caerdydd 24.03.26

Nodir rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn Adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel a ganlyn:

Atodiad 3: Gwybodaeth allweddol

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

(1) Bydd bwrdd o'r enw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y Bwrdd Cenedlaethol").

(2) Dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol yw— (a) rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol, (b) cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru, ac (c) gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny. (3) O ran y Bwrdd Cenedlaethol— (a) rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, (b) rhaid iddo gyflwyno unrhyw adroddiadau eraill i Weinidogion Cymru y byddant yn eu mynnu, ac (c) caiff gyflwyno unrhyw adroddiadau eraill y gwél yn dda.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Sefydlodd Deddf Plant 2004 Fyrddau Diogelu Plant ym mhob ardal awdurdod lleol. Nododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 y byddai 'ardaloedd Byrddau Diogelu' yn cyd-fynd ag ôl troed iechyd Cymru, gan greu chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Mae swyddogaethau'r Byrddau wedi'u nodi yn 'Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015' a 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg'.

Swyddogaethau'r Byrddau yw:

- a) cyfrannu at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn parhau i fod yn addas at y diben, a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynw'r hyn a wneir gan bartneriaid ar y Bwrdd;
- b) codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd, a darparu gwybodaeth am sut y gellid cyflawni hyn;
- c) adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i roi amcanion y Bwrdd ar waith a gwneud unrhyw argymhellion a ystyrir yn briodol;
- d) cynnal adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion, yn unol â rheoliad 4 – **mae'r adolygiadau hyn wedi'u disodli gan yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn lle'r adolygiadau hyn.**
- e) cynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau;
- f) monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion a wnaed o dan baragraff (c) neu (d) yn cael eu cyflawni neu wedi cael eu cyflawni;
- g) adolygu perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid wrth gyflawni ei amcanion.

- h) rhannu gwybodaeth am arfer gorau a gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o dan baragraff (d) neu (e);
- i) hwyluso ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed a'u hatal rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;
- j) adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr o ran diogelu a darparu/comisiynu hyfforddiant amlasiantaethol ar ddiogelu.

Mae chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion a phlant yn eu rhanbarthau.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n gweithio'n annibynnol arni i arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, chwarae a gofal plant drwy:

- Arfer swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau
- Penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau
- Arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac ysgogi gwelliannau iddynt
- Cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol
- Cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol
- Ymateb i bryderon a godwyd am ofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n gweithio'n annibynnol arni i arolygu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n hybu iechyd a llesiant pobl i'r eithaf drwy:

- Ganolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth gael mynediad at wasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.
- Addasu dulliau gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch cleifion
- Cydweithio i ysgogi gwelliannau i systemau a gwasanaethau o ym maes gofal iechyd
- Cefnogi a datblygu aelodau'r gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni blaenoriaethau.

Estyn

Corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n gweithio'n annibynnol arni i arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru o dan gyfarwyddyd amrywiaeth o ddeddfwriaethau a rheoliadau yn ogystal â rhaglen waith flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

Adroddiad terfynol Cam 1, Mawrth 2026, Adolygiad Atgyfnerthu Trefniadau
Llywodraethiant Diogelu

Gweledigaeth Estyn yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a chanlyniadau i bob dysgwr yng Nghymru, a'i chenhadaeth yw cefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunan-wella a dysgu drwy gynghori, arolygu a meithrin gallu.

Atodiad 4: Rhestr o acronymau a dolenni

Acronym	Esboniad a, lle y bo'n bosibl, dolen i'r wefan
PAAP	Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal – y strwythur llywodraethiant blaenorol ar gyfer plant
APC	Pwyllgorau Amddiffyn Oedolion – Yr Alban https://www.gov.scot/policies/social-care/adult-support-and-protection/#adult%20protection%20committees
APR	Adolygiadau Ymarfer Oedolion – Cymru – rhagflaenydd i'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru https://www.arolygiaethgofal.cymru/
CPA	Awdurdod Amddiffyn Plant https://www.gov.uk/government/news/new-national-child-protection-authority-announced
CPC	Pwyllgorau Amddiffyn Plant – Yr Alban https://www.celcis.org/our-work/key-areas
CPR	Adolygiadau Ymarfer Oedolion – Cymru – rhagflaenydd i'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
CPC	Pwyllgorau Amddiffyn Plant – Yr Alban https://www.celcis.org/our-work/key-areas
CSP	Partneriaethau Diogelwch Cymunedol https://www.gov.uk/government/publications/community-safety-partnerships/community-safety-partnerships
Estyn	Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru https://estyn.llyw.cymru/
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru https://www.agic.org.uk/
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi https://www.gov.uk/government/organisations/hm-prison-and-probation-service

Adroddiad terfynol Cam 1, Mawrth 2026, Adolygiad Atgyfnerthu Trefniadau
Llywodraethiant Diogelu

Yr Arolygiaethau	Mae hyn yn cyfeirio at Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn
LCSPR	Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant Lleol – Lloegr
LSCB	Byrddau Diogelu Plant Lleol – Lloegr
NISB	Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol https://bwrdddiogelu.cymru/about-the-board/
MAPF	Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol – Cymru
MAST	Traciwr Diogelu Amlasiantaethol https://www.local.gov.uk/case-studies/multi-agency-safeguarding-tracker
RPB	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – 7 yng Nghymru https://www.llyw.cymru/byrddau-partneriaeth-rhanbarthol
RSB	Byrddau Diogelu Rhanbarthol https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ Gogledd Cymru https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy Gwent https://cysur.cymru/ Canolbarth a Gorllewin Cymru https://www.wgsb.wales/cy/ Castell-nedd Port Talbot a Dinas Abertawe https://bdrhcaerdyddarfro.co.uk/ Caerdydd a'r Fro https://www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/Cy/Home.aspx Merthyr Tudful, RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr
ADUS	Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
ADUS (CD)	Adolygiad Diogelu Unedig Sengl gydag elfen Cam-drin Domestig
ADUS (IM)	Adolygiad Diogelu Unedig Sengl gydag elfen Iechyd Meddwl Adolygiad Diogelu Unedig Sengl gydag elfen Arfau Ymosodol
ADUS (AY)	
VAWDASV	Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol

WSR	Storfa Ddiogelu Cymru https://www.cardiff.ac.uk/cy/security-crime-intelligence-innovation-institute/research/projects/wales-safeguarding-repository
-----	---

Atodiad 5: Rhestr o sefydliadau ac unigolion yr ymgynghorwyd â nhw

1. Cadeiryddion Byrddau Diogelwch Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – dau gyfarfod
2. Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
3. Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – dau gyfarfod
4. Cyn-gadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
5. Prif Weithredwr Awdurdod Lleol
6. Iechyd Cyhoeddus Cymru – Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
7. Penaethiaid Unedau Amddiffyn y Cyhoedd
8. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cysur Canolbarth a Gorllewin Cymru
9. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
10. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent
11. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru
12. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
13. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
14. Rheolwyr Busnes Unigol x 6
15. Rheolwyr Busnes Diogelu Rhanbarthol – dau gyfarfod
16. Uwch-dîm Arwain AGIC
17. Uwch-dîm Arwain Estyn
18. Prif Arolygydd AGIC
19. Prif Arolygydd AGC
20. Uwch-dîm Arwain AGC
21. NSPCC
22. Cymorth i Ferched Cymru
23. Grŵp arwain Elusennau Plant
24. Tîm Hwb ADUS – dau gyfarfod
25. Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
26. Cyfarwyddwr Cascade
27. Cyfarwyddwr Gofal
28. Cynghorydd Cenedlaethol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod
29. Y Comisiynydd Plant
30. Y Comisiynydd Pobl Hŷn
31. Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
32. Prif Swyddog Cynorthwyol HMPPS
33. Prif Gwnstabl Gogledd Cymru
34. Arweinydd Diogelu yr Eglwys yng Nghymru
35. Arweinydd Diogelu yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
36. Arweinydd Diogelu Ynys Bŷr
37. Arweinydd Diogelu yr Eglwys Gatholig Archesgobaeth Caerdydd
38. Arweinydd Diogelu Grŵp Cydenwadol
39. Chwaraeon Cymru
40. Kyniska – Gwasanaeth eiriolaeth chwaraeon a arweinir gan athletwyr

41. Tîm Diogelu ac Eirioli Llywodraeth Cymru a Thîm Hwb yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
42. Archwilio Cymru
43. Rheolwr Diogelu CGGC
44. Cadeirydd y Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol
45. Prif Weithredwr y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
46. Cyn-Gadeirydd Panel Cenedlaethol Lloegr
47. Ymddiriedolwr – Cymdeithas Partneriaethau Diogelu Lloegr
48. Rheolwr Busnes – Cymdeithas Partneriaethau Diogelu Lloegr
49. Ymddiriedolwr a Rheolwr Busnes Cymdeithas Partneriaid Diogelu Lloegr
50. Cydlynnydd Celcis – Pwyllgorau Amddiffyn Plant yr Alban
51. Cadeirydd Pwyllgorau Ymarfer Plant yr Alban
52. Aelod annibynnol o Fwrdd Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig
53. Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru
54. Adolygwyr a chadeiryddion ADUS x 7
55. Cyn-gadeirydd PAAP yng Nghymru
56. Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru